**RHYBUDD O GYNNIG GAN GRŴP PLAID CYMRU**

Cynnig i Sir Ddinbych

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu torri'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), gan danseilio cefnogaeth hanfodol i filoedd o bobl gydag anableddau a chyflyrau hirdymor. Byddai hyn yn effeithio'n ddifrifol ar filoedd yn Sir Ddinbych, gan leihau eu hansawdd bywyd a rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau lleol.

Byddai unrhyw ostyngiad yn y gefnogaeth hon yn gorfodi mwy o bobl i droi at wasanaethau cymdeithasol lleol, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector—gan greu straen ariannol ychwanegol ar Gyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid.

Mae Grŵp Plaid Cymru ar y Cyngor yn condemnio'r toriadau hyn—sy'n rhan o gynllun ehangach i dorri £6 biliwn o'r system les—ac yn galw ar y Cyngor i:

1. Wrthwynebu'n gyhoeddus y toriadau i PIP.
2. Ysgrifennu llythyr agored at Ysgrifennydd Gwladol i fynegi pryderon lleol.
3. Sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn barod i gefnogi'r rhai a gaiff eu heffeithio.

Mae gennym ddyletswydd foesol i amddiffyn y bregus. Gofynnwn am eich cefnogaeth lawn i'r cynnig hwn.

**NOTICE OF MOTION BY THE PLAID CYMRU GROUP**

Motion to Denbighshire County Council:

The UK Government intends to cut the Personal Independence Payment (PIP), undermining vital support for thousands of people with disabilities and long-term conditions. This would have a serious impact on many in Denbighshire, reducing their quality of life and placing further pressure on already stretched local services.

Any reduction in this support would force more people to turn to local social services, health services, and the third sector—placing additional financial strain on Denbighshire County Council and its partners.

The Plaid Cymru Group on the Council condemns these cuts—which are part of a wider plan to cut £6 billion from the welfare system—and calls on the Council to:

- Publicly oppose the cuts to PIP.
- Write an open letter to the Secretary of State to express local concerns.
- Ensure that Council services are prepared to support those affected.

We have a moral duty to protect the most vulnerable. We ask for your full support for this motion.